

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD

P J Lucas
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424099 – Mrs.Z.Maisey

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 27 Tachwedd 2013 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGANIAD BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor:

1. Mae gofyn i aelodau i ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 1 – 10 ar 30 Hydref 2013 yn rhai cywir.

LLYWODRAETHU AGORED

- 4** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw

gyfrifoldebau gweinyddu.

5 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 3

(1) **Cwestiwn gan Mr.Stanely Beynon, Aber-nant, Aberdâr i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Cannon, QPM)**

Pam mae'r Cyngor yn gwneud y penderfyniadau anodd hyn yn glŷn â thorri gwariant a gwasanaethau?

(2) **Cwestiwn gan Ms.Catherine Powell, Llanhari i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Eudine Hanagan)**

A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes ddatganiad ar gyfreithlondeb diddymu'r ddarpariaeth ysgol amser-llawn ar gyfer plant 3 oed, heb ddarparu dewis arall yn ei lle ar gyfer y rheiny sy'n cael eu heffeithio?

(3) **Cwestiwn gan Mr.Karl Evans, Tonypany i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Eudine Hanagan)**

Roedd hi'n dda gen i glywed yng nghyfarfod diwethaf o'r Cabinet am y newyddion calonogol bod lefel cyrhaeddiad yn RhCT wedi rhagori ar y disgwyliadau yn y cyfnod sylfaen.

A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes egluro sut mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i wella cyrhaeddiad yn y cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol sy'n dilyn pe bai'r toriadau arfaethedig i addysg feithrin yn cael eu gweithredu?

(4) **Cwestiwn gan Ms.Jane Massey, Tonypany, i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Eudine Hanagan)**

Pa effaith, yn eich tŷb chi, fydd colli cludiant am ddim ar y niferoedd sydd am fynychu ysgolion Cymraeg, ac yn dilyn hynny, ar sefyllfa'r Gymraeg yn RhCT?

(5) **Cwestiwn gan Miss Marie Lloyd, Cwmaman,**

Aberdâr, i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Eudine Hanagan)

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y mae Cymru wedi ymrwymo iddo, pam nad oes unrhyw asesiad effaith ar hawliau plant wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r toriadau addysg Cam 1?

- (6) **Cwestiwn gan Mrs.Kate Evans, Pentre'r Eglwys, i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Cannon QPM)**

Yn adran 5.12 yn yr adroddiad gan Garfan Rheolwyr Corfforaethol (awdur Steve Merritt), nodir "Nid yw'n ymddangos bod unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ein trefniadau presennol yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau cyrhaeddiad".

Hoffwn i ofyn pa dystiolaeth sydd ar gael sy'n dangos nad yw'r trefniadau presennol yn cael effaith nac effaith negyddol ar lefelau cyrhaeddiad, yn enwedig yng ngoleuni adroddiad ar Gyflawniad Addysgol gan Mr Bradshaw, dyddiedig 11 Medi 2013, sy'n nodi "*For four of the five foundation phase indicators, the rate of improvement is faster than the Welsh average*"?

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (1) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Rees-Owen i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol (Mrs) E. Hanagan)**

"A wnewch chi ddatganiad ar gyfrifoldebau Consortiwm Canolbarth y De?"

- (2) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.R.Davies i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Cannon,QPM)**

"A wnewch chi ddatganiad ar waith y Bwrdd Gwasanaeth Lleol?"

- (3) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i Gadeirydd Pwyllgor Llywodraethu a Chyfansoddiad Corfforaethol (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.Lewis)**

"A wnewch chi ddatganiad ar Gylch Gorchwyl Pwyllgor

Llywodraethu a Chyfansoddiad Corfforaethol?"

- (4) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol C.Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol (Mrs) A.Davies**

"A chithau'n Hyrwyddwr Materion Plant, a wnewch chi ddatganiad ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?"

- (5) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol E.Webster i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor a Chysylltiadau Cyhoeddus (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

"A chithau'n Hyrwyddwr Materion Llywodraethu Agored, a wnewch chi ddatganiad ar strategaeth materion cyfathrebu'r Cyngor?"

- 7 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – LLYTHYR ASESIAD GWELLA**

Derbyn, er gwybodaeth yn unig, Llythyr Asesiad Gwella 11 – 17
Swyddfa Archwilio Cymru

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 8 Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2014/2015 – Y Setliad Dros Dro**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y 19 – 34
Gwasanaethau Corfforaethol

- 9 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2012/13**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y 35 – 72
Gwasanaethau Corfforaethol

- 10 Adolygiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2013/14**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y 73 – 84
Gwasanaethau Corfforaethol

- 11 Opsiynau ar gyfer Lleihau Cyllideb – Costau Cyflogaeth**

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr. 85 – 90

**12 Newid i Aelodaeth Pwyllgorau - Pwyllgor Craffu
Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau 91 – 92
Cyfreithiol a Llywodraethol

**13 Uwch Dîm Rheoli Cyfadran y Gwasanaethau
Corfforaethol - Adolygiad**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau 93 – 95
Dynol.

14 RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn
enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell a
J.S.James:

“O ystyried amgylchiadau ariannol presennol y Cyngor
a'r bwriad i dorri gwasanaethau a nifer y staff, bydd y
Cyngor yn cwtogi ar gyfrifoldebau'r Prifweithredwr a
lleihau'r cyflog o 10% yn dilyn gweithredu camau
angenrheidiol o ran materion adnoddau dynol a
chytundebol”

15 RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn
enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Cannon,QPM,
M.Forey, A.Christopher, R.Bevan, A.Davies, E.Hanagan,
C.Middle, A.Morgan, M.Webber, C.Willis, L.M.Adams,
T.Bates, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick, J.Bunnage,
A.Calvert, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David,
A.L.Davies,MBE, J.Davies, M.Davies, L.De Vet, J.Elliott,
A.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, G.Holmes, G.Hopkins,
S.Jones, L.Langford, R.Lewis, C.Leyshon, S.Lloyd,
R.McDonald, K.Montague, B.Morgan, M.Norris,
S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, A.Roberts,
J.Rosser, G.Smith, R.Smith, G.Stacey, B.Stephens,
M.Tegg, G.Thomas, R.Turner, J.Ward, M.J.Watts,
W.D.Weeks, C.Williams, D.Williams, T.Williams a R.Yeo:

“Bod pob Cynghorydd o'r awdurdod lleol yma yn dweud
wrth y Swyddog Priodol o'u bwriad i ildio un y cant o'u
codiad cyflog sydd i fod i gael ei ddyfarnu i holl
Gynghorwyr yng Nghymru gan y Panel Annibynnol ar
Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol
2014/2015”.

**16 ER GWYBODAETH
PENDERFYNIADAU BRYD Y CABINET WEDI’U
HEITHRIO RHAG ‘GALW I MEWN’ (PARAGRAFF
17.2(A) O RAN 4 O’R CYFANSODDIAD)**

**(1) Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd – Cynllun ar Adnau
(drafft)**

Penderfyniad y Cabinet – 18 Tachwedd 2013

Cytunwyd:

- Cefnogi amcanion CDLI Caerdydd i ddarparu fframwaith ar gyfer twf yn y dyfodol er lles y rhanbarth.
- Gwrthwynebu'r cynllun ei hun gan nad yw'r effaith ar drafnidiaeth mewn ardaloedd strategol pwysig i ogledd-orllewin Caerdydd wedi cael ei asesu'n llawn na'i liniaru.
- Annog rhagor o drafodaeth â Chyngor Caerdydd er mwyn datrys i materion yma.
- Nad yw'r mater yn destun gweithdrefnau craffu galw i mewn gan mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i Gyngor Caerdydd yw'r 26^{ain} Tachwedd 2013.

Rheswm dros fod yn fater o frys:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru yw'r 26^{ain} Tachwedd 2013.

**(2) Fframwaith Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn
Addewid Llywodraeth Cymru: Buddsoddiad Adfywio
wedi'i dargedu**

Penderfyniad y Cabinet – 18 Tachwedd 2013

Cytunwyd:

- Cyflwyno cais Cam 2 i Lywodraeth Cymru.
- Rhoi hawl i Gyfarwyddwr Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio i addasu'r rhaglen a'i hadolygu - mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi a Chymunedau Diogel - yr amod nad yw'n newid ei chyfansoddiad na'i heffaith.
- Nad yw'r mater yn destun gweithdrefnau craffu galw i mewn gan mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru yw'r 25^{ain} Tachwedd 2013.

Rheswm dros fod yn fater o frys:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru yw'r 25^{ain} Tachwedd 2013.

(3) Cynllun posibl i Sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) yng nghanol trefi Rhondda Cynon Taf

Penderfyniad y Cabinet – 18 Tachwedd 2013


Cytunwyd:

- Enwebu Pontypridd yn ganol tref 'peilot' ar gyfer cronfa ddatblygu Ardal Gwella Busnes (BID) gronfa ddatblygu.
- Bod cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Nad yw'r mater yn destun gweithdrefnau craffu galw i mewn gan mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru yw'r 29^{ain} Tachwedd 2013.

Rheswm dros fod yn fater o frys:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru yw'r 29^{ain} Tachwedd 2013.

- 17** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb Maer y Cyngor, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob aelod o'r Cyngor

20 Tachwedd 2013